

**CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD: 17 HYDREF 2019**

**TEITL: RHAGLEN GYFALAF 2019/20 –  
ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2019**

**PWRPAS: Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen  
Gyfalaf**

**GWEITHREDIAD: Derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r  
Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet**

**SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID**

**AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - Adolygiad Diwedd Awst 2019) i'r Cabinet ar 15 Hydref 2019 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**

Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - Adolygiad Diwedd Awst 2019 (Cabinet 15/10/2019)